**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 3711 (Cy.307)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Cynrychiolwyr Rhiant-lywodraethwyr a Chynrychiolwyr Eglwysig (Cymru) 2001

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn gwneud darpariaeth i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr wneud trefniadau sy'n golygu creu a gweithredu gweithrediaeth i'r awdurdod. Mae Rhan II o'r Ddeddf honno hefyd yn gwneud darpariaeth i'r awdurdodau lleol wneud trefniadau amgen nad ydynt yn golygu creu a gweithredu gweithrediaeth i'r awdurdod. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth neu drefniadau amgen sefydlu un neu fwy o bwyllgorau y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau hyn fel pwyllgorau trosolygu a chraffu.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth i gynrychiolwyr rhiant-lywodraethwyr mewn ysgolion a gynhelir gael eu cynnwys ar bwyllgorau trosolygu a chraffu addysg yr awdurdodau addysg lleol yng Nghymru.

Mae rheoliad 3 yn datgan bod darpariaethau'r Rheoliadau hyn wedi'u pennu fel trefniadau amgen yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac mai'r Rheoliadau hyn sy'n trechu os digwydd bod unrhyw ddarpariaeth yn anghyson â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001.

Mae rheoliad 4 yn darparu bod pob pwyllgor trosolygu a chraffu addysg yn cynnwys rhwng 2 a 5 o gynrychiolwyr rhiant-lywodraethwyr.

Mae rheoliad 5 yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer ethol cynrychiolwyr rhiant-lywodraethwyr ac yn

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 3711 (W.307)

# EDUCATION, WALES

## The Parent Governor Representatives and Church Representatives (Wales) Regulations 2001

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

Part II of the Local Government Act 2000 makes provision for local authorities in England and Wales to make arrangements involving the creation and operation of an executive of the authority. Part II of that Act also makes provision for local authorities to make alternative arrangements which do not involve the creation and operation of an executive of the authority. Local authorities operating executive or alternative arrangements are required to establish one or more committees referred to in these Regulations as overview and scrutiny committees.

These Regulations make provision for representatives of parent governors at maintained schools to be included in education overview and scrutiny committees of local education authorities in Wales.

Regulation 3 states that the provisions of these Regulations are specified as alternative arrangements pursuant to the Local Government Act 2000 and that these Regulations will prevail in the event that any provision is inconsistent with the Local Authorities (Alternative Arrangements) (Wales) Regulations 2001.

Regulation 4 provides for each education overview and scrutiny committee to include between 2 and 5 parent governor representatives.

Regulation 5 sets out the election procedures for parent governor representatives and allows local

caniatáu i'r awdurdodau addysg lleol wneud trefniadau i rannu cynrychiolwyr rhiant-lywodraethwyr i gategorïau gwahanol sy'n cynrychioli math penodol neu fathau penodol o ysgol neu sy'n cynrychioli ysgolion mewn ardaloedd daearyddol penodol.

Mae rheoliad 6 yn ymwneud â meini prawf cymhwyster ar gyfer pleidleisio mewn etholiadau. Oni fydd awdurdod addysg lleol yn cynnal etholiad ar gyfer categori penodol o gynrychiolwyr rhiant-lywodraethwyr gall unrhyw riant-lywodraethwr ysgol a gynhelir gan yr awdurdod hwnnw bleidleisio. Er hynny, os yw'r swydd wag yn un ar gyfer cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr i gynrychioli math penodol neu fathau penodol o ysgol dim ond rhiant-lywodraethwyr yr un math neu fathau o ysgol a all bleidleisio. Yn yr un modd, os yw'r swydd wag yn un ar gyfer cynrychiolydd rhiant-lywodraethwr i gynrychioli ysgolion mewn ardal benodol dim ond rhiant-lywodraethwyr ysgolion yn yr ardal honno a all bleidleisio. Ym mhob etholiad pan fydd cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr yn gymwys i bleidleisio mae gan y cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr hwnnw bleidlais ar wahân ar gyfer pob swydd llywodraethwr gymwys y mae'n ei dal ar gyfer yr etholiad arbennig hwnnw.

Mae rheoliad 7 yn nodi'r cymwysterau ar gyfer etholiad fel cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr. Yn fras, gall unrhyw berson sy'n rhiant-lywodraethwr ac yn rhiant i blentyn sy'n cael ei addysgu gan yr awdurdod sy'n cynnal yr etholiad gael ei ethol. Er hynny, os yw'r swydd wag yn un i gynrychioli math penodol neu fathau penodol o ysgol dim ond rhiant-lywodraethwyr o'r math neu fathau perthnasol o ysgol a all gael eu hethol. Yn yr un modd, os yw'r swydd wag yn un i gynrychioli ysgolion mewn ardal ddaearyddol benodol dim ond rhiant-lywodraethwyr ysgolion yn yr ardal honno a all gael eu hethol.

Mae rheoliadau 7 a 8 yn nodi'r amgylchiadau sy'n anghymhwyso person rhag cael ei ethol neu rhag parhau i weithredu fel cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr.

Mae rheoliad 9 yn darparu cyfnod swydd cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr i fod rhwng dwy flynedd a phedair blynedd, onid yw'r swydd yn dod yn wag yn ystod y cyfnod, ac mae'n nodi'r weithdrefn pan ddaw'r swydd yn wag yn ystod y cyfnod, gan gynnwys cyfnod swydd olynydd y cynrychiolydd.

Mae rheoliad 10 yn nodi hawliau pleidleisio cynrychiolwyr rhiant-lywodraethwyr. Gall cynrychiolydd bleidleisio ar unrhyw fater sy'n ymwneud â swyddogaethau addysgol gweithrediaeth yr awdurdod sy'n codi yng nghyfarfod un o bwyllgorau trosolygu a chraffu addysg yr awdurdod hwnnw.

Mae rheoliad 11 yn darparu i bwyllgor trosolygu a chraffu addysg sydd wedi'i benodi o dan drefniadau amgen a weithredir gan awdurdod addysg lleol gynnwys o leiaf un cynrychiolydd eglwysig os yw'r

education authorities to make arrangements to divide parent governor representatives into different categories representing a particular type or particular types of school or representing schools in particular geographical areas.

Regulation 6 deals with the eligibility criteria for voting in elections. Unless a local education authority holds an election for a particular category of parent governor representative any parent governor of a school maintained by that authority can vote. However, if the vacancy is for a parent governor representative to represent a particular type or particular types of school only parent governors of the same type or types of school can vote. Similarly, where the vacancy is for a parent governor representative to represent schools in a particular area only parent governors of schools in that area can vote. In each election in which a parent governor representative is eligible to vote that parent governor representative has a separate vote for each qualifying governorship he or she holds for that particular election.

Regulation 7 sets out the qualifications for election as a parent governor representative. Broadly, any person who is a parent governor and is a parent of a child being educated by the authority holding the election can be elected. However, if the vacancy is to represent a particular type or particular types of school only parent governors of the relevant type or types of school can be elected. Similarly, if the vacancy is to represent schools in a particular geographical area only parent governors of schools in that area can be elected.

Regulations 7 and 8 set out circumstances which disqualify a person from being elected or continuing to act as a parent governor representative.

Regulation 9 provides the term of office of a parent governor representative to be between 2 and 4 years, unless the office is vacated mid-term, and sets out the procedure when the office is vacated mid-term, including the term of office of a representative's successor.

Regulation 10 sets out the voting rights of parent governor representatives. A representative can vote on any matter relating to the education functions of the authority's executive which arises at a meeting of an education overview and scrutiny committee of that authority.

Regulation 11 provides for an education overview and scrutiny committee appointed under alternative arrangements operated by a local education authority to include at least one church representative if the

awdurdod o dan sylw yn cynnal un neu fwy o ysgolion â chymeriad crefyddol.

Mae rheoliad 12 yn diddymu Rheoliadau blaenorol sy'n ymdrin â chynrychiolwyr rhiant-lywodraethwyr. Mae hefyd yn nodi darpariaethau trosiannol i ymdrin â'r sefyllfa cyn i'r pwyllgorau trosolygu a chraffu newydd gael eu sefydlu.

Mae rheoliad 13 yn ymdrin â throsglwyddo cynrychiolwyr rhiant-lywodraethwyr a etholwyd o dan yr hen Reoliadau i'r pwyllgorau newydd.

Mae rheoliad 14 yn gwneud diwygiadau penodol i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001 ac yn cadarnhau y bydd y Rheoliadau hyn yn cael blaenoriaeth dros y Rheoliadau hynny os bydd rhyw anghysondeb rhwng darpariaethau'r ddwy set o Reoliadau.

authority concerned maintains one or more schools with a religious character.

Regulation 12 revokes earlier Regulations dealing with parent governor representatives. It also sets out transitional provisions to deal with the situation before new overview and scrutiny committees are established.

Regulation 13 deals with the transfer to the new committees of parent governor representatives elected under the old Regulations.

Regulation 14 makes certain amendments to the Local Authorities (Alternative Arrangements) (Wales) Regulations 2001 and confirms that these Regulations will have priority over those Regulations in the event that there is some inconsistency between the provisions of the two sets of Regulations.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 3711 (Cy.307)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Cynrychiolwyr Rhiant-lywodraethwyr a Chynrychiolwyr Eglwysig (Cymru) 2001

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *15 Tachwedd 2001* |
| *Yn dod i rym* | *14 Rhagfyr 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 32, 105(2) a 106(1) a (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**a**) a pharagraffau 9(4), (5) a (6) o Atodlen 1 iddi, a thrwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 499 a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**b**) ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**c**):

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynrychiolwyr Rhiant-lywodraethwyr a Chynrychiolwyr Eglwysig (Cymru) 2001.

(2) Deuant i rym ar 14 Rhagfyr 2001.

(3) Maent yn gymwys i Gymru yn unig.

**Dehongli**

**2**. Yn y Rheoliadau hyn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall:

ystyr "awdurdod addysg lleol" ("*local education authority*") yw awdurdod addysg lleol yng Nghymru;

ystyr "cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr" ("*parent governor representative*") yw person sydd wedi'i ethol yn unol â rheoliadau 5 i 7 neu sy'n cael ei drin yn unol â rheoliad 11 pe bai wedi'i ethol felly;

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**ch**);

(a) 2000 p.22.

(b) 1996 p.56; diwygiwyd adran 499 gan adran 9 o Ddeddf 1998.

(c) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672)

(ch) 1998 p.31.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 3711 (W.307)

# EDUCATION, WALES

## The Parent Governor Representatives and Church Representatives (Wales) Regulations 2001

| | |
|---|---|
| *Made* | *15th November 2001* |
| *Coming into force* | *14th December 2001* |

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred on it by sections 32, 105(2) and 106(1) & (2) of, and paragraphs 9(4), (5) and (6) of Schedule 1 to, the Local Government Act 2000(**a**), and in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 499 and 569(4) and (5) of the Education Act 1996(**b**) and now vested in the National Assembly for Wales(**c**):

**Citation, commencement and application**

**1**.-(1) These Regulations are called the Parent Governor Representatives and Church Representatives (Wales) Regulations 2001.

(2) They come into force on 14th December 2001.

(3) They apply only to Wales.

**Interpretation**

**2**. In these Regulations, unless the context otherwise requires:

"the 1998 Act" ("*Deddf 1998*") means the School Standards and Framework Act 1998(**d**);

"the 1999 Regulations" ("*Rheoliadau 1999*") means the Education (Parent Governor Representatives) (Wales) Regulations 1999(**e**)

"the 2000 Act" ("*Deddf 2000*") means the Local Government Act 2000;

(a) 2000 c.22.

(b) 1996 c.56; section 499 was amended by section 9 of the 1998 Act.

(c) *See* the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(d) 1998 c.31.

(e) S.I. 1999/1900.

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 2000;

ystyr "dyddiad yr etholiad" ("*the date of the election*"), mewn perthynas ag etholiad pan ellir bwrw pleidlais ar fwy nag un dyddiad, yw'r dyddiad olaf y gellir bwrw pleidlais neu y gellir derbyn pleidleisiau post;

mae i "gweithrediaeth" yr ystyr a roddir i "*executive*" gan adran 11 o Ddeddf 2000;

ystyr "pwyllgor trosolygu a chraffu addysg ("*education overview and scrutiny committee*") yw -

(a) pwyllgor neu is?bwyllgor trosolygu a chraffu awdurdod addysg lleol wedi'i benodi o dan adran 21 o Ddeddf 2000 y mae ei swyddogaethau yn ymwneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol ag unrhyw swyddogaethau addysg sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod; neu

(b) pwyllgor neu is-bwyllgor awdurdod addysg lleol wedi'i benodi yn unol â darpariaeth sydd wedi'i chynnwys mewn trefniadau amgen yn rhinwedd adran 32(1)(b) o Ddeddf 2000 (trefniadau ar gyfer penodi pwyllgorau neu is-bwyllgorau i adolygu neu graffu ar benderfyniadau a wnaed, neu gamau eraill a gymrwyd, mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau'r awdurdod) y mae ei swyddogaethau'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol ag unrhyw swyddogaethau addysg sy'n gyfrifoldeb i'r awdurdod(**a**);

ystyr "Rheoliadau 1999" ("*the 1999 Regulations*") yw Rheoliadau Addysg (Cynrychiolwyr Rhiant-lywodraethwyr) (Cymru) 1999(**b**);

ystyr "rhiant-lywodraethwr" ("*parent governor*") yw-

(a) person-

(i) sydd wedi'i ethol yn aelod o gorff llywodraethu ysgol gan rieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol; a

(ii) sydd yn rhiant i ddisgybl o'r fath ar yr adeg y caiff ei ethol; neu

(b) person sydd wedi'i benodi'n rhiant-lywodraethwr gan y corff llywodraethu yn unol â rheoliadau o dan Ddeddf 1998(**c**); neu

(c) person sy'n parhau yn rhiant-lywodraethwr at ddibenion ailgyfansoddi'r corff llywodraethu wrth drosi i'r fframwaith ysgolion newydd yn rhinwedd rheoliadau o dan Ran II o Ddeddf 1998(**ch**);

(a) Gweler Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001 (O.S 2001/2285 (W.173)).

(b) O.S. 1999/1900.

(c) Gweler rheoliadau 9 a 12 o Reoliadau Addysg (Llywodraethu Ysgolion) (Cymru)1999 (O.S. 1999/2242 (Cy.2.) ) ac Atodlenni 2, 5 a 6 iddynt.

(ch) Gweler rheoliadau 13 ac 20 o Reoliadau Addysg (Llywodraethu Ysgolion) (Trosi i Fframwaith Newydd) 1998 (O.S. 1998/2763).

"alternative arrangements" ("*trefniadau amgen*") has the meaning given to it by section 32 of the 2000 Act;

"the date of the election" ("*dyddiad yr etholiad*"), in relation to an election in which votes can be cast on more than one date, means the last date on which votes can be cast or postal votes received;

"education overview and scrutiny committee" ("*pwyllgor trosolygu a chraffu addysg*") means -

(a) an overview and scrutiny committee or sub-committee of a local education authority appointed under section 21 of the 2000 Act the functions of which relate wholly or partly to any education functions which are the responsibility of the authority's executive; or

(b) a committee or sub-committee of a local education authority appointed in accordance with provision included in alternative arrangements by virtue of section 32(1)(b) of the 2000 Act (arrangements for the appointment of committees or sub-committees to review or scrutinise decisions made, or other action taken, in connection with the discharge of functions of the authority) the functions of which relate wholly or partly to any education functions which are the responsibility of the authority(**a**);

"executive" ("*gweithrediaeth*") has the meaning given to it by section 11 of the 2000 Act;

"executive arrangements" ("*trefniadau gweithrediaeth*") has the meaning given to it by section 10 of the 2000 Act;

"local education authority" ("*awdurdod addysg lleol*") means a local education authority in Wales;

"parent governor" ("*rhiant-lywodraethwr*") means -

(a) a person who is -

(i) elected as a member of a school's governing body by parents of registered pupils at the school; and

(ii) a parent of such a pupil at the time when he or she is elected; or

(b) a person who is appointed as a parent governor by the governing body in accordance with regulations under the 1998 Act(**b**); or

(c) a person who continues as a parent governor for the purposes of the reconstitution of the governing body on transition to the new schools framework by virtue of regulations under Part II of the 1998 Act(**c**);

(a) See the Local Authorities (Alternative Arrangements) (Wales) Regulations 2001 (S.I. 2001/2285 (W.173)).

(b) See regulations 9 and 12 of, and Schedules 2, 5 and 6 to, the Education (School Government) (Wales) Regulations 1999 (S.I. 1999/2242 (W.2)).

(c) See regulations 13 and 20 of the Education (School Government) (Transition to New Framework) Regulations 1998 (S.I. 1998/2763).

mae i "trefniadau amgen" yr ystyr a roddir i "*alternative arrangements*" gan adran 32 o Ddeddf 2000;

mae i "trefniadau gweithrediaeth" yr ystyr a roddir i "*executive arrangements*" gan adran 10 o Ddeddf 2000;

ystyr "trefniadau pleidleisio yn ôl categori" ("*voting by category arrangements*") yw trefniadau o'r math y cyfeirir atynt yn rheoliad 5(2);

mae i "ysgol" ("school") yr ystyr a roddir i "*maintained school*" gan adran 20(7) o Ddeddf 1998.

"parent governor representative" ("*cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr*") means a person elected in accordance with regulations 5 to 7 or treated in accordance with regulation 11 as so elected;

"school" ("*ysgol*") has the meaning given to "maintained school" by section 20(7) of the 1998 Act;

"voting by category arrangements" ("*trefniadau pleidleisio yn ôl categori*") means arrangements of a kind referred to in regulation 5(2).

**Trefniadau Amgen**

**3**.-(1) Pennir darpariaethau'r Rheoliadau hyn yn drefniadau amgen at ddibenion Rhan II o Ddeddf 2000 yn ychwanegol at y trefniadau amgen a bennir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001(**a**).

(2) I'r graddau y mae unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliadau hynny'n anghyson ag unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliadau hyn, y ddarpariaeth yn y Rheoliadau hyn fydd drechaf.

**Alternative arrangements**

**3.**-(1) The provisions of these Regulations are specified as alternative arrangements for the purposes of Part II of the 2000 Act in addition to the alternative arrangements specified in the Local Authorities (Alternative Arrangements) (Wales) Regulations 2001(**a**).

(2) To the extent that any provision of those Regulations is inconsistent with any provision of these Regulations, the provision in these Regulations shall prevail.

**Gofyniad bod pwyllgorau trosolygu a chraffu addysg yn cynnwys cynrychiolwyr rhiant-lywodraethwyr**

**4**. Yn ddarostyngedig i reoliad 13, rhaid i awdurdod addysg lleol benodi o leiaf ddau ond nid mwy na phum cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr, wedi'u hethol yn unol â rheoliad 5, i bob un o'u pwyllgorau trosolygu a chraffu addysg.

**Requirement for education overview and scrutiny committees to include parent governor representatives**

**4.** Subject to regulation 13, a local education authority must appoint at least two but not more than five parent governor representatives, elected in accordance with regulation 5, to each of their education overview and scrutiny committees.

**Gweithdrefnau etholiadol a swyddi gwag**

**5**.-(1) Yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau hyn, rhaid i awdurdod addysg lleol wneud yr holl drefniadau angenrheidiol ar gyfer cynnal etholiad cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr a phenderfynu ar yr holl faterion eraill ynghylch ei gynnal, ond ni fydd dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod rhag penodi corff arall i gynnal neu oruchwylio'r etholiad hwnnw.

(2) Caiff awdurdod addysg lleol wneud trefniadau i rannu cynrychiolwyr rhiant?lywodraethwyr i gategorïau gwahanol sy'n cynrychioli naill ai -

(a) math penodol o ysgol neu fathau penodol o ysgol, neu

(b) ysgolion mewn ardal ddaearyddol benodol,

ac i gyfyngu etholaeth pob categori felly i riant-lywodraethwyr o'r un math o ysgol neu o'r un mathau o ysgol neu riant-lywodraethwyr ysgolion yn yr ardal honno.

**Election procedures and vacancies**

**5**.-(1) Subject to these Regulations, a local education authority shall make all the necessary arrangements for, and determine all other matters relating to, the holding of an election of a parent governor representative, but nothing in this regulation shall prevent an authority from appointing another body to conduct or oversee that election.

(2) A local education authority may make arrangements dividing parent governor representatives into different categories representing either -

(a) a particular type of school or particular types of school, or

(b) schools in a particular geographical area,

and restricting the electorate for each such category to parent governors of the same type or types of school or parent governors of schools in that area.

(a) O.S. 2001/2285 (Cy.173).

(a) S.I. 2001/2285 (W.173).

(3) Os bydd gofyn llenwi swydd ar gyfer cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr drwy etholiad rhaid i'r awdurdod addysg lleol gyhoeddi'r swydd wag honno o fewn tri mis iddi ddod yn wag ac ar yr un adeg â'r cyhoeddiad hwnnw rhaid iddynt-

(a) penodi swyddog canlyniadau a fydd yn sicrhau cyn belled â phosibl fod yr etholiad yn cael ei gynnal yn deg; a

(b) cymryd unrhyw gamau sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau bod pob person y gwyddys ei fod yn gymwys i bleidleisio mewn etholiad cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr (yn unol â rheoliad 6)-

(i) wedi cael gwybod am y swydd wag y mae'n ofynnol ei llenwi drwy etholiad;

(ii) wedi cael gwybod bod ganddo ef neu ganddi hi hawl i bleidleisio yn yr etholiad a bod esboniad o'r gweithdrefnau pleidleisio yn rheoliad 6(2) i 6(6) (fel y bo'n gymwys) yn cael ei roi iddo ef neu iddi hi;

(iii) wedi cael gwybod am fanylion yr amserlen a'r gweithdrefnau etholiadol;

(iv) wedi cael gwybod am y cymwysterau y mae ar berson eu hangen (o dan reoliad 7) er mwyn cael ei ethol yn gynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr, ac am gyfnod swydd cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr (o dan reoliad 9); a

(v) wedi cael disgrifiad o rôl cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr.

(4) Rhaid cynnal unrhyw etholiad cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr lle ceir gornest drwy bleidlais gyfrinachol.

(5) Ni chaiff unrhyw bapur pleidleisio mewn etholiad felly gynnwys unrhyw arwydd o gysylltiad â phlaid wleidyddol.

(6) Pan fydd swydd wag ar gyfer cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr yn codi, rhaid i'r awdurdod addysg lleol -

(a) penderfynu, at ddibenion yr etholiad, unrhyw gwestiwn ynghylch hawl person i bleidleisio neu ei gymhwyster i sefyll etholiad;

(b) darparu i bob person sy'n gymwys i bleidleisio yn yr etholiad gael cyfle i wneud hynny drwy'r post;

(c) sicrhau bod canlyniadau'r etholiad yn cael eu cyhoeddi heb fod yn fwy nag wythnos ar ôl dyddiad yr etholiad.

(7) Yn ddarostyngedig i baragraff (8), pan fydd swydd wag ar gyfer cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr, rhaid i'r awdurdod addysg lleol sicrhau bod etholiad yn cael ei gynnal mewn pryd i lenwi'r swydd heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl y dyddiad y daeth y swydd yn wag.

(3) Where a vacancy for a parent governor representative is required to be filled by election the local education authority shall announce that vacancy within three months of the vacancy occurring and at the time of that announcement shall -

(a) appoint a returning officer who shall ensure that so far as possible the election is conducted fairly; and

(b) take such steps as are reasonably practicable to ensure that every person who is known to them to be eligible to vote in the election of a parent governor representative (in accordance with regulation 6) is -

(i) informed of the vacancy and that it is required to be filled by election;

(ii) informed that he or she is entitled to vote at the election and is given an explanation of the voting procedures in regulation 6(2) to 6(6) (as applicable);

(iii) informed of the details of the electoral timetable and procedures;

(iv) informed of the qualifications which a person requires (under regulation 7) in order to be elected as a parent governor representative, and of the term of office of a parent governor representative (under regulation 9); and

(v) provided with a description of the role of a parent governor representative.

(4) Any election of a parent governor representative which is contested must be held by secret ballot.

(5) No ballot paper in such an election shall contain any indication of an affiliation with a political party.

(6) Where a vacancy for a parent governor representative arises, the local education authority shall -

(a) determine, for the purposes of the election, any question as to a person's entitlement to vote or eligibility to stand for election;

(b) provide for every person who is eligible to vote in the election to have an opportunity to do so by post;

(c) secure that the results of the election are announced not more than one week after the date of the election.

(7) Subject to paragraph (8), where there is a vacancy for a parent governor representative, the local education authority must ensure that an election is held in time to fill the vacancy not later than six months after the date on which the vacancy occurred.

(8) Pan fydd swydd wag ar gyfer cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr heb ei llenwi oherwydd nad oes ymgeisydd, neu nad oes digon o ymgeiswyr yn ceisio cael eu hethol, rhaid i'r awdurdod addysg lleol gydymffurfio â gofynion y rheoliad hwn unwaith eto cyn pen blwyddyn i'r swydd wreiddiol ddod yn wag a phob chwe mis wedyn, wedi'i gyfrifo o'r pen-blwydd cyntaf ar ôl i'r swydd wreiddiol ddod yn wag, hyd nes y llenwir y swydd.

(9) Ni fydd dim yn y Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bleidlais gael ei chynnal os yw nifer y swyddi gwag sydd i'w llenwi yn hafal i nifer yr ymgeiswyr sydd i'w ethol neu'n fwy na hynny.

**Cymhwyster i bleidleisio mewn etholiadau a gofynion pleidleisio**

**6**.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), bydd person yn gymwys i bleidleisio yn etholiad cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr os yw'r person hwnnw ar ddyddiad yr etholiad yn rhiant-lywodraethwr ar un neu fwy o ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod addysg lleol sy'n cynnal yr etholiad.

(2) Pan fydd pleidleisio, o dan drefniadau pleidleisio yn ôl categori, dros gategori penodol o gynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr yn cael ei gyfyngu i riant-lywodraethwyr o fath penodol neu o fathau penodol o ysgol a gynhelir gan yr awdurdod, ni fydd person yn gymwys i bleidleisio yn etholiad categori felly o gynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr ond os yw ar ddyddiad yr etholiad yn rhiant-lywodraethwr un neu fwy o ysgolion o'r math hwnnw neu o'r mathau hynny a gynhelir gan yr awdurdod.

(3) Pan fydd pleidleisio, o dan drefniadau felly, dros gategori penodol o gynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr yn cael ei gyfyngu i riant-lywodraethwyr o ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod mewn ardal ddaearyddol benodol, ni fydd person yn gymwys i bleidleisio yn etholiad categori felly o gynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr ond os yw ar ddyddiad yr etholiad yn rhiant-lywodraethwr un neu fwy o ysgolion yn yr ardal ddaearyddol honno a gynhelir gan yr awdurdod.

(4) Pan na fydd yr awdurdod wedi gwneud trefniadau pleidleisio yn ôl categori, bydd gan berson sydd yn rhiant-lywodraethwr ar fwy nag un ysgol a gynhelir gan yr awdurdod ar ddyddiad yr etholiad, hawl i fwrw'r nifer o bleidleisiau sy'n hafal i nifer yr ysgolion hynny y mae'n rhiant-lywodraethwr arnynt ar ddyddiad yr etholiad.

(5) Pan fydd yr awdurdod wedi gwneud trefniadau pleidleisio yn ôl categori, bydd gan berson sydd, yn rhinwedd paragraff (2) neu (3), yn gymwys i bleidleisio yn etholiad mwy nag un categori o gynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr (oherwydd ei fod yn rhiant-lywodraethwr ar fwy nag un math o ysgol neu ar ysgolion mewn mwy nag un ardal ddaearyddol, yn ôl fel y digwydd) hawl i bleidleisio yn etholiad pob categori felly y mae'n gymwys ynddynt.

(8) Where a vacancy for a parent governor representative is unfilled because no, or not enough, candidates seek election, the local education authority must comply with the requirements of this regulation again within one year of the original vacancy having arisen and at six monthly intervals thereafter, calculated from the first anniversary of the original vacancy having arisen, until the vacancy is filled.

(9) Nothing in these Regulations shall require a ballot to be held if the number of vacancies to be filled is equal to or exceeds the number of candidates for election.

**Eligibility to vote in elections and voting requirements**

**6**.-(1) Subject to paragraphs (2) and (3), a person shall be eligible to vote in the election of a parent governor representative if that person is at the date of the election a parent governor of one or more schools maintained by the local education authority holding the election.

(2) Where, under voting by category arrangements, voting for a particular category of parent governor representative is restricted to parent governors of a particular type or particular types of school maintained by the authority, a person shall only be eligible to vote in the election of such a category of parent governor representative if at the date of the election he or she is a parent governor of one or more schools of that type or those types maintained by the authority.

(3) Where, under such arrangements, voting for a particular category of parent governor representative is restricted to parent governors of schools maintained by the authority in a particular geographical area, a person shall only be eligible to vote in the election of such a category of parent governor representative if at the date of the election he or she is a parent governor of one or more schools in that geographical area maintained by the authority.

(4) Where the authority have not made voting by category arrangements, a person who, at the date of the election, is a parent governor of more than one school maintained by the authority, shall be entitled to cast a number of votes equal to the number of such schools of which he or she is, at the date of the election, a parent governor.

(5) Where the authority have made voting by category arrangements, a person who, by virtue of paragraph (2) or (3), is eligible to vote in the election of more than one category of parent governor representative (because he or she is a parent governor of more than one type of school or of schools within more than one geographical area, as the case may be) shall be entitled to vote in the election of each such category in which he or she is so eligible.

(6) Bydd y nifer o bleidleisiau y mae gan berson felly hawl i'w bwrw yn etholiad pob categori felly o gynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr y mae'n gymwys i bleidleisio ynddynt yn nifer sy'n hafal i nifer yr ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod y mae'n rhiant-lywodraethwr cymwys arnynt ar ddyddiad yr etholiad.

(6) The number of votes which such a person shall be entitled to cast in the election of each such category of parent governor representative in which he or she is eligible to vote shall be a number equal to the number of schools maintained by the authority of which he or she is, at the date of the election, an eligible parent governor.

(7) Ym mharagraff (6) ystyr "rhiant-lywodraethwr cymwys" ("*eligible parent governor*") yw rhiant-lywodraethwr sy'n gymwys yn unol â pharagraff (2) neu (3) (yn ôl fel y digwydd) a pharagraff (5) i bleidleisio yn etholiad y categori o gynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr o dan sylw.

(7) In paragraph (6) "eligible parent governor" (*"rhiant-lywodraethwr cymwys"*) means a parent governor who is eligible in accordance with paragraph (2) or (3) (as the case may be) and paragraph (5) to vote in the election of the category of parent governor representative in question.

**Cymwysterau ar gyfer etholiad fel cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr**

**7**.-(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau canlynol y rheoliad hwn, bydd person, onid yw wedi'i anghymhwyso o dan unrhyw ddeddfiad, yn gymwys i'w ethol fel cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr mewn etholiad a gynhelir gan awdurdod addysg lleol os yw ar ddyddiad yr etholiad-

- (a) yn rhiant-lywodraethwr ysgol a gynhelir gan yr awdurdod hwnnw; a
- (b) yn rhiant plentyn cofrestredig sy'n cael ei addysgu mewn ysgol a gynhelir gan yr awdurdod hwnnw, neu sy'n cael ei addysgu gan yr awdurdod hwnnw heblaw mewn ysgol.

(2) Pan fydd y swydd wag yn un ar gyfer cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr i gynrychioli math penodol o ysgol neu fathau penodol o ysgol, ni fydd person yn gymwys i gael ei ethol ond os yw, yn ychwanegol at fodloni gofynion paragraffau (1)(a) ac (1)(b) hefyd yn rhiant-lywodraethwr ar ysgol o'r math hwnnw neu ar un o'r mathau hynny o ysgol.

(3) Pan fydd y swydd wag yn un ar gyfer cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr i gynrychioli ysgolion mewn ardal ddaearyddol benodol, ni fydd person yn gymwys i gael ei ethol ond os yw, yn ychwanegol at fodloni gofynion paragraffau (1)(a) ac (1)(b) hefyd yn rhiant-lywodraethwr ar ysgol yn yr ardal honno.

(4) Bydd person sydd eisoes yn aelod o'r awdurdod addysg lleol sy'n cynnal yr etholiad wedi'i anghymhwyso rhag cael ei ethol yn gynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr.

(5) Bydd person sy'n athro neu'n athrawes, neu a gyflogir fel arall, mewn ysgol a gynhelir gan yr awdurdod addysg lleol sy'n cynnal yr etholiad, neu mewn uned cyfeirio disgyblion neu mewn ysgol feithrin a gynhelir gan yr awdurdod hwnnw, wedi'i anghymhwyso rhag cael ei ethol yn gynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr.

(6) Bydd person a gyflogir gan yr awdurdod addysg lleol sy'n cynnal yr etholiad, ac y mae ei gyflogaeth yn ymwneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol â

**Qualifications for election as a parent governor representative**

**7**.-(1) Subject to the following provisions of this regulation, a person shall, unless disqualified under any enactment, be qualified to be elected as a parent governor representative in an election held by a local education authority if on the date of the election he or she is -

- (a) a parent governor of a school maintained by that authority; and
- (b) the parent of a registered pupil who is educated at a school maintained by that authority, or who is educated by that authority otherwise than at a school.

(2) Where the vacancy is for a parent governor representative to represent a particular type or particular types of school, a person shall only be qualified to be elected if in addition to satisfying the requirements of paragraphs (1)(a) and (1)(b) that person is also a parent governor of a school of that type or one of those types.

(3) Where the vacancy is for a parent governor representative to represent schools in a particular geographical area, a person shall only be qualified to be elected if in addition to satisfying the requirements of paragraphs (1)(a) and (1)(b) that person is also a parent governor of a school in that area.

(4) A person who is already a member of the local education authority holding the election shall be disqualified from being elected as a parent governor representative.

(5) A person who is a teacher at, or is otherwise employed in, a school maintained by the local education authority holding the election, or a pupil referral unit or nursery school maintained by that authority, shall be disqualified from being elected as a parent governor representative.

(6) A person who is employed by the local education authority holding the election, and whose employment relates wholly or partly to the education functions of

swyddogaethau addysg yr awdurdod hwnnw, wedi'i anghymhwyso rhag cael ei ethol yn gynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr.

(7) Ni fydd person yn gymwys i'w ethol yn gynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr pwyllgor trosolygu a chraffu addysg awdurdod addysg lleol os yw ar ddyddiad yr etholiad eisoes yn dal swydd fel cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr ar bwyllgor trosolygu a chraffu addysg yr awdurdod hwnnw neu unrhyw awdurdod arall.

**Anghymhwyso rhag parhau i ddal swydd fel cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr**

**8**.-(1) Bydd cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr a oedd yn gymwys i'w ethol o dan y Rheoliadau hyn yn peidio â bod yn gymwys i ddal y swydd honno -

(a) pan fydd yn ymddiswyddo neu pan gaiff ei anghymhwyso o swydd rhiant-lywodraethwr o dan unrhyw ddeddfiad; neu

(b) yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), pan fydd yn rhoi'r gorau i fod yn rhiant-lywodraethwr mewn ysgol a gynhelir gan yr awdurdod addysg lleol o dan sylw, am unrhyw reswm heblaw-

(i) bod cyfnod ei swydd fel rhiant-lywodraethwr ysgol o'r fath wedi dod i ben; neu

(ii) bod newid yng nghyfansoddiad corff llywodraethu'r ysgol yr oedd yn rhiant-lywodraethwr arni.

(2) Bydd cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr a oedd yn gymwys i'w ethol o dan drefniadau pleidleisio yn ôl categori fel cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr i gynrychioli ysgolion o fath penodol neu o fathau penodol yn peidio â bod yn gymwys i ddal y swydd honno os nad yw mwyach yn dal unrhyw swydd fel rhiant-lywodraethwr a oedd yn ei gymhwyso neu a fyddai wedi ei gymhwyso i gael ei ethol yn gynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr am unrhyw reswm heblaw'r rhesymau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(b).

(3) Bydd cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr a oedd yn gymwys i'w ethol o dan drefniadau pleidleisio yn ôl categori fel cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr i gynrychioli ysgolion mewn ardal ddaearyddol benodol yn peidio â bod yn gymwys i ddal y swydd honno os nad yw mwyach yn dal unrhyw swydd fel rhiant-lywodraethwr a oedd yn ei gymhwyso neu a fyddai wedi ei gymhwyso i gael ei ethol yn gynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr am unrhyw reswm heblaw'r rhesymau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(b).

(4) Bydd cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr yn peidio â bod yn gymwys i ddal y swydd honno os bydd yn cael ei ethol yn aelod o'r awdurdod addysg lleol o dan sylw.

that authority, shall be disqualified from being elected as a parent governor representative.

(7) A person is not qualified for election as a parent governor representative of an education overview and scrutiny committee of a local education authority if that person is at the date of the election already holding office as a parent governor representative on an education overview and scrutiny committee of that authority or any other authority.

**Disqualification from continuing to hold office as a parent governor representative**

**8**.-(1) A parent governor representative who qualified for election under these Regulations shall cease to be qualified to hold that office upon -

(a) resigning or being disqualified from the office of parent governor under any enactment; or

(b) subject to paragraphs (2) and (3), ceasing to be a parent governor at a school which is maintained by the local education authority concerned, otherwise than by reason of -

(i) his or her term of office as a parent governor of such a school having expired; or

(ii) a change in the constitution of the governing body of the school at which he or she was a parent governor.

(2) A parent governor representative who qualified for election under voting by category arrangements as a parent governor representative to represent schools of a particular type or particular types shall cease to be qualified to hold that office if he or she no longer holds any parent governorship which qualified or would have qualified him or her to be elected as a parent governor representative for any reason other than those referred to in paragraph (1)(b).

(3) A parent governor representative who qualified for election under voting by category arrangements as a parent governor representative to represent schools in a particular geographical area shall cease to be qualified to hold that office if he or she no longer holds any parent governorship which qualified or would have qualified him or her to be elected as a parent governor representative for any reason other than those referred to in paragraph (1)(b).

(4) A parent governor representative shall cease to be qualified to hold that office if he or she is elected as a member of the local education authority concerned.

(5) Bydd cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr yn peidio â bod yn gymwys i ddal y swydd honno os bydd yn ymgymryd â chyflogaeth-

(a) p'un ai fel athro neu athrawes neu fel arall, mewn ysgol a gynhelir gan yr awdurdod addysg lleol o dan sylw neu mewn uned cyfeirio disgyblion neu mewn ysgol feithrin a gynhelir gan yr awdurdod hwnnw, neu

(b) gyda'r awdurdod addysg lleol a bod ei gyflogaeth yn ymwneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol â swyddogaethau addysg yr awdurdod hwnnw.

(6) Bydd cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr sydd wedi methu â bod yn bresennol yng nghyfarfodydd pwyllgor trosolygu a chraffu addysg y mae'n aelod ohono am gyfnod di-dor o chwe mis gan ddechrau ar ddyddiad cyfarfod, pan fydd y cyfnod hwnnw'n dod i ben, yn peidio â bod yn gymwys i ddal y swydd honno.

(7) At ddibenion paragraff (6), ni chymerir bod cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr wedi methu â bod yn bresennol mewn cyfarfod o bwyllgor trosolygu a chraffu addysg os yw wedi cyflwyno ymddiheuriad am ei absenoldeb a bod yr ymddiheuriad hwnnw wedi'i dderbyn gan y pwyllgor.

**Cyfnod y swydd**

**9**.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) isod a rheoliad 13 (darpariaethau trosiannol), bydd cyfnod swydd cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr ar bwyllgor trosolygu a chraffu addysg -

(a) yn dechrau ar unrhyw ddyddiad y penderfynir arno gan yr awdurdod addysg lleol, sef dyddiad heb fod yn fwy na mis ar ôl dyddiad cyhoeddi canlyniad yr etholiad yr etholwyd ef neu hi ynddo, a

(b) o'r hyd hwnnw y penderfynir arno gan yr awdurdod addysg lleol sef cyfnod heb fod yn llai na dwy flynedd nac yn fwy na phedair blynedd.

(2) Pan na fydd cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr yn cwblhau cyfnod ei swydd, caiff yr awdurdod addysg lleol benodi olynydd iddo am y rhan o gyfnod blaenorol y swydd sydd heb ddirwyn i ben.

**Hawliau pleidleisio cynrychiolwyr rhiant-lywodraethwyr**

**10**. Bydd gan gynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr hawl i bleidleisio yng nghyfarfod pwyllgor trosolygu a chraffu addysg y mae'n aelod ohono ar unrhyw gwestiwn -

(a) sy'n ymwneud ag unrhyw swyddogaethau addysg sydd yn gyfrifoldeb yr awdurdod addysg lleol o dan sylw, a

(b) sydd i'w ystyried yn y cyfarfod.

(5) A parent governor representative shall cease to be qualified to hold that office if he or she takes up employment -

(a) whether as a teacher or otherwise, in a school maintained by the local education authority concerned or a pupil referral unit or nursery school maintained by that authority, or

(b) with the local education authority and his or her employment relates wholly or partly to the education functions of that authority.

(6) A parent governor representative who has failed to attend the meetings of an education overview and scrutiny committee of which he or she is a member for a continuous period of six months beginning with the date of a meeting shall, on the expiry of that period, cease to be qualified to hold that office.

(7) For the purposes of paragraph (6), a parent governor representative shall not be taken to have failed to attend a meeting of an education overview and scrutiny committee if he or she has tendered an apology for his or her absence and that apology has been accepted by the committee.

**Term of office**

**9**.-(1) Subject to paragraph (2) below and regulation 13 (transitional provisions), the term of office of a parent governor representative on an education overview and scrutiny committee -

(a) shall begin on such date as the local education authority shall determine, being a date not more than one month after the date of the announcement of the result of the election in which he or she has been elected, and

(b) shall be of such duration as the local education authority shall determine, being a period not less than two years nor greater than four years.

(2) Where a parent governor representative does not complete his or her term of office, the local education authority may appoint a successor for the unexpired portion of the previous term of office.

**Voting rights of parent governor representatives**

**10**. A parent governor representative shall be entitled to vote at a meeting of an education overview and scrutiny committee of which he or she is a member on any question which -

(a) relates to any education functions which are the responsibility of the local education authority concerned, and

(b) falls to be considered at the meeting.

**Cynrychiolwyr eglwysig**

**11**.-(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i bwyllgor awdurdod addysg lleol sydd wedi'i benodi yn unol â'r ddarpariaeth a gynhwysir mewn trefniadau amgen yn rhinwedd adran 32(1)(b) (y cyfeirir ato isod yn y rheoliad hwn fel pwyllgor trosolygu a chraffu addysg) os yw swyddogaethau'r pwyllgor yn ymwneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol ag unrhyw swyddogaethau addysg sy'n gyfrifoldeb i'r awdurdod.

(2) Mae'r rheoliad hwn hefyd yn gymwys i is-bwyllgor i bwyllgor trosolygu a chraffu addysg awdurdod os yw swyddogaethau'r is-bwyllgor yn ymwneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol ag unrhyw swyddogaethau addysg sy'n gyfrifoldeb i'r awdurdod.

(3) Rhaid i bwyllgor neu is-bwyllgor trosolygu a chraffu addysg y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo gynnwys un neu fwy o bersonau a benodir fel cynrychiolwyr y personau sy'n penodi llywodraethwyr sefydledig ar gyfer yr ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod o dan sylw ac sydd wedi'u pennu mewn cyfarwyddiadau a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel ysgolion sydd â chymeriad yn gysylltiedig â chrefydd benodol, neu ag enwad crefyddol penodol, sydd wedi'u pennu yn y cyfarwyddiadau.

(4) Nid yw paragraff (3) yn gymwys os nad oes ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod o dan sylw ac sydd wedi'u pennu mewn cyfarwyddiadau o dan y paragraff hwnnw.

(5) Mae gan aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor trosolygu a chraffu addysg a benodwyd yn rhinwedd paragraff (3) hawl i bleidleisio mewn cyfarfod o'r pwyllgor neu o'r is-bwyllgor ar unrhyw gwestiwn -

(a) sy'n ymwneud ag unrhyw swyddogaethau addysg sy'n gyfrifoldeb i'r awdurdod o dan sylw, a

(b) sydd i'w benderfynu yn y cyfarfod.

(6) Caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy gyfarwyddiadau i awdurdod addysg lleol ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un o bwyllgorau neu is-bwyllgorau trosolygu a chraffu addysg yr awdurdod y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddynt gynnwys personau a benodir, yn unol â'r cyfarwyddiadau, yn gynrychiolwyr y personau sy'n penodi llywodraethwyr sefydledig i'r ysgolion hynny a gynhelir gan yr awdurdod o dan sylw ac nad ydynt wedi'u pennu mewn cyfarwyddiadau o dan baragraff (3) a all gael eu pennu mewn cyfarwyddiadau o dan y paragraff hwn.

(7) Gall cyfarwyddiadau o dan baragraff (6) wneud darpariaeth ynghylch hawliau pleidleisio personau a benodir yn unol â chyfarwyddiadau o'r fath.

**Church representatives**

**11**.-(1) This regulation applies to a committee of a local education authority appointed in accordance with provision included in alternative arrangements by virtue of section 32(1)(b) (referred to below in this regulation as an education overview and scrutiny committee) if the committee's functions relate wholly or partly to any education functions which are the responsibility of the authority.

(2) This regulation also applies to a sub-committee of an education overview and scrutiny committee of an authority if the sub-committee's functions relate wholly or partly to any education functions which are the responsibility of the authority.

(3) An education overview and scrutiny committee or sub-committee to which this regulation applies must include one or more persons appointed as representatives of the persons who appoint foundation governors for the schools which are maintained by the authority concerned and which are specified in directions made by the National Assembly for Wales as schools which have a character connected with a particular religion, or particular religious denomination, specified in the directions.

(4) Paragraph (3) does not apply if there are no schools which are maintained by the authority concerned and which are specified in directions under that paragraph.

(5) A member of an education overview and scrutiny committee or sub-committee appointed by virtue of paragraph (3) is to be entitled to vote at a meeting of the committee or sub-committee on any question -

(a) which relates to any education functions which are the responsibility of the authority concerned, and

(b) which falls to be decided at the meeting.

(6) The National Assembly for Wales may by directions to a local education authority require any of the authority's education overview and scrutiny committees or sub-committees to which this regulation applies to include persons who are appointed, in accordance with the directions, as representatives of the persons who appoint foundation governors for such of the schools which are maintained by the authority concerned and which are not specified in directions under paragraph (3) as may be specified in directions under this paragraph.

(7) Directions under paragraph (6) may make provision with respect to the voting rights of persons appointed in accordance with such directions.

**Diddymu a Darpariaethau Trosiannol**

**12**.-(1) Mae Rheoliadau 1999 drwy hyn wedi'u diddymu.

(2) Ni fydd diddymu Rheoliadau 1999 yn dirymu penodiad cynrychiolwyr rhiant-lywodraethwyr i bwyllgor perthnasol (o fewn ystyr "*relevant committee*" yn Rheoliadau 1999).

(3) Hyd nes y bydd awdurdod addysg lleol yn gweithredu trefniadau gweithrediaeth neu drefniadau amgen bydd y Rheoliadau hyn yn effeithiol mewn perthynas â'r awdurdod hwnnw-

(a) fel pe bai cyfeiriadau at "pwyllgor trosolygu a chraffu addysg" yn gyfeiriadau at bwyllgor perthnasol (o fewn ystyr "*relevant committee*" yn Rheoliadau 1999), a

(b) fel pe bai'r cyfeiriad yn rheoliad 10 at "gweithrediaeth yr awdurdod addysg lleol o dan sylw" yn gyfeiriad at "yr awdurdod o dan sylw".

**13**.-(1) Yn y rheoliad hwn, ystyr "Cynrychiolydd 1999" yw cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr -

(a) sydd wedi'i ethol a'i benodi i bwyllgor perthnasol (o fewn ystyr "*relevant committee*" yn Rheoliadau 1999) awdurdod lleol yn unol â Rheoliadau 1999, a

(b) nad yw cyfnod ei swydd a gyfrifwyd yn unol â Rheoliadau 1999, wedi dirwyn i ben ar y dyddiad y mae'r awdurdod hwnnw'n sefydlu pwyllgor trosolygu a chraffu addysg.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) pan fydd awdurdod addysg lleol yn sefydlu pwyllgor trosolygu a chraffu addysg, ymdrinnir â Chynrychiolydd 1999 fel pe bai wedi'i benodi i'r pwyllgor trosolygu a chraffu addysg hwnnw.

(3) Bydd Cynrychiolydd 1999 yr ymdrinnir ag ef fel pe bai wedi'i benodi i bwyllgor trosolygu a chraffu addysg yn unol â pharagraff (2) yn parhau yn ei swydd hyd nes y daw cyfnod gwreiddiol ei swydd i ben fel aelod o'r pwyllgor perthnasol (o fewn ystyr "*relevant committee*" yn Rheoliadau 1999).

(4) Ni fydd dim ym mharagraff (3) yn atal Cynrychiolydd 1999 rhag cael ei anghymhwyso rhag parhau yn ei swydd yn rhinwedd darpariaeth a wneir o dan y Rheoliadau hyn.

**Diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001**

**14**.-(1) Yn rheoliad 2 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001 (**a**) yn y diffiniad o "trefniadau amgen" ar ôl "rheoliad 4" mewnosodwch "neu â Rheoliadau Cynrychiolwyr Rhiant-lywodraethwyr a Chynrychiolwyr Eglwysig (Cymru) 2001(**b**)"

(a) O.S. 2001/2284 (Cy.173).

(b) O.S. 2001/3711 (Cy.307).

**Revocation and Transitional Provisions**

**12**.-(1) The 1999 Regulations are hereby revoked.

(2) The revocation of the 1999 Regulations shall not invalidate the appointment of parent governor representatives to a relevant committee (within the meaning of the 1999 Regulations).

(3) Until a local education authority operates executive arrangements or alternative arrangements these Regulations shall have effect in relation to that authority as if -

(a) references to an "education overview and scrutiny committee" were references to a relevant committee (within the meaning of the 1999 Regulations), and

(b) the reference in regulation 10 to "the executive of the local education authority concerned" was a reference to "the authority concerned".

**13**.-(1) In this regulation "a 1999 Representative" means a representative of parent governors -

(a) elected and appointed to a relevant committee (within the meaning of the 1999 Regulations) of a local authority pursuant to the 1999 Regulations,

(b) whose term of office, calculated in accordance with the 1999 Regulations, has not expired on the date on which that authority establishes an education overview and scrutiny committee.

(2) Subject to paragraph (3), on the establishment by a local education authority of an education overview and scrutiny committee, a 1999 Representative shall be treated as having been appointed to that education overview and scrutiny committee.

(3) A 1999 Representative who is treated as having been appointed to an education overview and scrutiny committee in accordance with paragraph (2) shall continue in office until the expiry of his or her original term of office as a member of the relevant committee (within the meaning of the 1999 Regulations).

(4) Nothing in paragraph (3) shall prevent a 1999 Representative from being disqualified, by virtue of provision made under these Regulations, from continuing to hold office.

**Amendment of the Local Authorities (Alternative Arrangements) (Wales) Regulations 2001**

**14**.-(1) In regulation 2 of the Local Authorities (Alternative Arrangements) (Wales) Regulations 2001(**a**) in the definition of "alternative arrangements" after "regulation 4" insert "or the Parent Governor Representatives and Church Representatives (Wales) Regulations 2001(**b**)".

(a) S.I. 2001/ 2284 (W.173).

(b) S.I. 2001/3711 (W.307).

(2) Yn lle rheoliad 4(3) o'r Rheoliadau hynny rhowch y canlynol:

"(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), pennir y trefniadau a nodir yn y Rheoliadau hyn a'r trefniadau a nodir yn Rheoliadau Cynrychiolwyr Rhiant-lywodraethwyr a Chynrychiolwyr Eglwysig (Cymru) 2001(**a**) yn drefniadau amgen at ddibenion Rhan II o Ddeddf 2000.

(4) I'r graddau y mae unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliadau hyn yn anghyson ag unrhyw ddarpariaeth yn Rheoliadau Cynrychiolwyr Rhiant-lywodraethwyr a Chynrychiolwyr Eglwysig (Cymru) 2001, y ddarpariaeth yn y Rheoliadau olaf hynny fydd drechaf.".

(2) For regulation 4(3) of those Regulations substitute the following:

"(3) Subject to paragraph (4), the arrangements set out in these Regulations and the arrangements set out in the Parent Governor Representatives and Church Representatives (Wales) Regulations 2001(**a**) are specified as alternative arrangements for the purposes of Part II of the 2000 Act.

(4) To the extent that any provision of these Regulations is inconsistent with any provision of the Parent Governor Representatives and Church Representatives (Wales) Regulations 2001, the provision in those latter Regulations shall prevail.".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**b**)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**b**)

15 Tachwedd 2001

15th November 2001

*John Marek*

Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Deputy Presiding Officer of the National Assembly

(a) O.S. 2001/3711(Cy.307)

(b) 1998 p.38.

(a) S.I. 2001/3711 (W.307).

(b) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 3711 (Cy.307)

## ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Cynrychiolwyr Rhiant -lywodraethwyr a Chynrychiolwyr Eglwysig (Cymru) 2001

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 3711 (W.307)

## EDUCATION, WALES

The Parent Governor Representatives and Church Representatives (Wales) Regulations 2001

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090379-X

£3.00

W/383/12/01 ON

9 780110 903798